Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

# Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys

# Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap

**Dyddiad yr ymweliad** **15 Mawrth 2011**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Ffordd Fan
CAERFFILI
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

**www.hiw.org.uk**

**75%** **wedi'i ailgylchu**
**recycled**

ISBN 978 0 7504 6311 9
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2011
WG 12683

# Cynnwys


| | | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad .............................................................................. | 1 |
| 2. | Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd ............................................. | 3 |
| 2.1 | Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Cymunedol Machynlleth | 3 |
| 2.2 | Ward Twymyn, Ward Adsefydlu | 3 |
| | Yr Amgylchedd ........................................................................ | 3 |
| | Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog ....................................................................... | 6 |
| | Cyfarpar a Storfeydd ............................................................... | 6 |
| | Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff ........................................... | 6 |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2006, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y cyhoedd a chleifion ar draws Cymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bwriad i gynnal archwiliadau dirybudd, ar hap, o lanweithdra mewn sefydliadau gofal iechyd ar draws Cymru. Cynhelir rhaglen o ymweliadau dirybudd bob blwyddyn.

1.2 Ystyrir gwybodaeth o sawl gwahanol ffynhonnell sy'n berthnasol i'r agenda hon, ac fe'i defnyddir i bennu cyfeiriad y rhaglen archwiliadau ar hap. Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglen yn gyson gan ystyried unrhyw wybodaeth newydd a ddaw i'n sylw.

1.3 Fel rhan o'n Harchwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap, rydym yn cynnal trafodaethau gyda'r staff clinigol ac yn arsylwi mannau clinigol yn uniongyrchol. Mae'r rhestr wirio a ddefnyddir i lywio'r archwiliadau wedi ei seilio ar y pecyn archwilio Rheoli Haint a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Atal Heintiau (IPS).

1.4 Mae mwy o wybodaeth am AGIC, ei hymweliadau ar hap a'r pecyn archwilio a ddefnyddir i'w gweld yn www.hiw.org.uk

### Ymweliad â Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys

1.5. Ar 15 Mawrth 2011, ymwelodd AGIC ag Ysbyty Cymunedol Machynlleth, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, gan gynnal archwiliad glanweithdra ar hap o Ward Twymyn, sef Ward Adsefydlu.

1.6 Nodir ein canfyddiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw at gryfderau, yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella ymhellach, ac yn argymell camau gweithredu. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd baratoi cynllun gwella i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol sy'n destun pryder, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

# 2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd

## 2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Cymunedol Machynlleth

Ystyriwyd bod safon glanweithdra amgylchedd cyffredinol yr ysbyty yn dderbyniol. Gwelwyd bod y coridorau a'r llwybrau cerdded cyhoeddus yn daclus ac nad oedd unrhyw eitemau amhriodol ynddynt.

## 2.2 Ward Twymyn, Ward Adsefydlu.

### Yr Amgylchedd

Gwelwyd bod safon dda o lanweithdra ar y ward ac nad oedd llwch uchel nac isel yno.




- Gwelwyd bod y coridorau'n daclus ac nad oedd unrhyw eitemau amhriodol ynddynt.




- Gwelwyd bod yr ystafelloedd ymolchi'n lân ac nad oedd unrhyw eitemau amhriodol ynddynt.




- Nid yw'r ffrâm bren yn yr  ystafell amlbwrpas eitemau budron yn dderbyniol, a dylid cael un arall yn ei lle gan na ellir glanhau pren yn effeithiol ac y gallai hyn achosi risg bosibl o halogiad.




- Gwelwyd nifer o rwymynnau wedi eu clymu i'r llinynnau galw brys gan nad oedd eu hyd yn briodol; mae hyn yn annerbyniol oherwydd y risg o halogiad.  Dylid gosod llinynnau galw brys o hyd derbyniol yn eu lle.




- Nid yw'r sinciau yn ystafelloedd ochr y cleifion yn sinciau golchi dwylo clinigol ac nid ydynt yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) 64.  Dylai pob sinc golchi dwylo glinigol fod â thapiau a weithredir â'r penelin, y pen-glin neu synhwyrydd wedi eu gosod arnynt.  Er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar y risg o ran rheoli heintiau, dylid gallu troi'r tapiau ymlaen a'u diffodd yn rhwydd heb halogi'r dwylo.  O ganlyniad, dylid cael tapiau eraill yn lle'r rhai presennol.




- Roedd nifer o gomodau wedi eu gosod yn barod i'w defnyddio, ond wrth edrych arnynt, gwelwyd nad oeddent wedi eu glanhau i safon dderbyniol. Dylid sefydlu dull cyson o lanhau comodau, a gosod arwydd i ddangos bod y comôd yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.

Gwelwyd hefyd fod y comodau ar y ward wedi rhydu, a bod cyflwr y deunydd yn gwaethygu gan eu gwneud yn anodd eu glanhau. Dylid cael rhai eraill yn eu lle.

Yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron, nid oedd sinc golchi dwylo glinigol, benodedig ar gael i'r staff ei defnyddio. Dylid rhoi sylw i hyn pan fydd y sefydliad yn gwneud gwaith adnewyddu yn y dyfodol.

### Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n briodol mewn man penodedig lle nad oedd unrhyw eitemau amhriodol. Roedd dillad gwely a llieiniau budron yn cael eu cadw ar wahân mewn bagiau codau lliw priodol, ac roeddent yn cael eu storio mewn man priodol cyn cael gwared arnynt.

Roedd y ward yn trin ac yn gwaredu gwastraff yn briodol.

Roedd y ward yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol ar gyfer trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel.

## Cyfarpar a Storfeydd

Gwelwyd bod yr offer ar y ward yn lân yn gyffredinol ac mewn cyflwr da, a bod teclynnau yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol.

Gwelwyd bod powlenni ymolchi cleifion yn cael eu defnyddio i gadw eiddo cleifion; mae hyn yn annerbyniol gan fod yn rhaid cadw powlenni ymolchi cleifion ar eu pennau i lawr a heb unrhyw eitemau amhriodol ynddynt.

## Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Yn gyffredinol, roedd y staff y siaradwyd â hwy yn ystod ein hymweliad wedi dilyn hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd ganddynt wybodaeth dda am reoli heintiau, er enghraifft, pa bryd y dylent olchi eu dwylo a pha bryd y dylent wisgo menig.

Mae archwiliadau hylendid dwylo'n cael eu cynnal ar y ward, ond nid yw'r canlyniadau'n cael eu rhoi i'r staff fel mater o drefn.  Dylai'r staff gymryd rhan yn y rhain a chael gwybod am y canlyniadau, fel y gellir mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn brydlon.

Gwelwyd nad oedd gel alcohol bob amser ar gael yn y pwynt gofal; gall gosod cynhyrchion rhwbio dwylo â sail alcohol iddynt mewn man priodol wrth ymyl cleifion gynorthwyo i gydymffurfio â chanllawiau hylendid dwylo.  Gellid gosod y cynhyrchion hyn wrth draed y gwely neu ar gwpwrdd bychan y claf.

Roedd gel alcohol ar gael wrth fynedfa'r ward, ond nid oedd yn hawdd i ymwelwyr, cleifion na'r staff ei weld.  Dylid gosod arwyddion eglur i hybu'r defnydd o gyfleusterau hylendid dwylo.